

| | | |
|---|---|---|
| Rhannu<br>Agorwch eich taflen waith ar y wefan. Dewiswch yr un sydd angen ymarfer a gwella arnoch chi.<br> Rhannu gyda rhif 1 digid gan adael gweddill<br>https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/z36tyrd/articles/zcjh8mn<br>https://www.youtube.com/watch?v=eZ41jzOv37c<br> Rhannu gyda rhif 2 ddigid gan adael gweddill<br>https://www.youtube.com/watch?v=X44z9qgY9SU<br>Rhannu gan newid y gweddill i ddegolyn<br><br>**Byddwn yn ebostio fideos i'ch helpu chi hefyd.**<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | Oeddech chi'n gwybod bod gan y Ta Mahal linell o gymesuredd –cymesuredd adlewyrchiad. Petaech yn dal drych yn fertigol i lawr y canol byddai'r ochr yn cael ei adlewyrchu yn union yn y drych, a byddai'r peth yn edrych fel llun cyfan. Os oes angen mwy o wybodaeth ar gymesuredd arnoch chi, defnyddiwch y linciau:<br><br>https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zbcf47h/articles/zr7hgwx<br>https://www.bbc.co.uk/teach/class-clips-video/maths-ks2-finding-lines-of-symmetry/zktfgwx<br>https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zrhp34j/articles/z8t72p3<br>***Eich tasg yw i greu delwedd o'r Taj Mahal. Gallwch ddewis paentio, braslunio neu hyd yn oed adeiladu model jync...ond rhaid ei fod yn gymesur!***<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | Wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl 18/5/20 -24/5<br>Y thema eleni yw 'Caredigrwydd'<br><br>Yn ôl yr ymchwil, mae bod yn garedig yn dda i'n hiechyd meddwl ein hunain. Rydym yn diffinio caredigrwydd fel y weithred o wneud rhywbeth caredig i rywun arall neu i chi'ch hunan er mwyn neud gwahaniaeth bosatif.Mae caredigrwydd yn hybu ein hunan hyder hefyd. Eich tasg chi yw i gadw dyddiadur caredigrwydd am y pythefnos nesaf. Pob dydd, bydd angen i chi gynllunio a gwneud rhyw weithred o garedigrwydd. Does dim angen i hwn i fod yn beth syfrdanol...ond yn rhywbeth caredig! Rydym wedi atodi taflen pdf gydag enghreifftiau o weithredoedd o garedigrwydd, ond mae'n siŵr y bydd gennych chi lwyth o syniadau eich hunain hefyd.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |
| Ewch ati i ymchwilio ar y wê i stori a hanes y Taj Mahal. Defnyddiwch fwrdd stori i amlinellu'r hanes.<br><br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.***<br> | Casglwch wybodaeth am India ac yna ewch ati i ysgrifennu adroddiad sy'n crynhoi'r hyn y gwnaethoch ddysgu. Cofiwch y bydd angen i chi ddefnyddio is-deitlau yn eich adroddiad.<br>Dyma ychydig o syniadau am is-deitlau:<br>Gwybodaeth cyffredinol (Maint y wlad, prifddinas, arian y wlad, poblogaeth ac ati) Y Taj Mahal, Y Ganges, Crefyddau yn India, Bwyd.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB*** | Agorwch y ddogfen 'Amser gorffennol y ferf'. Ewch ati i gwblhau'r tabl ac yna, ysgrifennwch frawddegau sy'n cynnwys amser gorffennol y ferf.<br>cerdded – cerddodd<br>rhedeg – rhedodd<br>nofio – nofiodd<br><br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |

| | | |
|---|---|---|
| Homophones are words that are pronounced the same but have different meanings. The focus for this work is differentiating and using “to”, “too” and “two” correctly. Good luck!<br>***Upload your work to your J2e file in HWB*** | Ewch ati i greu llun word art/cloud o’r Taj Mahal gan gynnwys ansoddeiriau, ffeithiau ac ystadegau. Rhowch côd lliw i bob categori o fewn y llun. Mae meddalwedd ar gael am ddim ar-lein.<br> <br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** | Rydych yn mynd ar daith i weld y Taj Mahal yn India! Defnyddiwch unrhyw dechnoleg  y dymunwch er mwyn creu flog neu ffilm fer o’r lleoliad rhyfeddol hon! Gall fod e.e. yn ffilm sgrin werdd, animeiddiad, pwerbwynt yn cynnwys sain a /neu fideo.<br>***Lanlwythwch eich gwaith i'ch plygell yn J2e yn HWB.*** |